CYNIGION TRAFFIG NEWYDD AR GYFER DINAS A SIR CAERDYDD

# GORCHYMYN CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU STOPIO, AROS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIAD RHIF 88) GORCHYMYN 2026

Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 fel y'i diwygiwyd a Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Dinas a Sir Caerdydd) 2010, Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013, Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Canllawiau ar Lefelau Taliadau) 2013 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn bwriadu gosod cyfyngiadau traffig ar y darnau o ffordd a nodir yn yr Atodlen isod. Mae natur y cyfyngiadau gorchmynion arfaethedig hefyd wedi eu disgrifio yn yr Atodlen honno.

Bydd y canlynol yn berthnasol i breswylwyr cymwys sy'n dymuno gwneud cais am Drwyddedau Parcio Preswylwyr. Ni roddir mwy na 3 trwydded i bob eiddo (gydag un ohonynt yn Drwydded Ymwelwyr) a bydd cost trwyddedau o'r fath yn unol â Gorchymyn Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Stopio, Aros, Llwytho a Mannau Parcio ar y Stryd) (Cydgrynhoi) 2024 sydd am y tro fel a ganlyn:

| MATH | HYD | FFIOEDD | UCHAFSWM NIFER (OS YW'N BERTHNASOL) |
|---|---|---|---|
| Trwydded Preswylydd (Parth K3) | 12 mis | Trwydded 1af- £35.00 y Drwydded<br>2il Drwydded - £90.00 y Drwydded | Dau fesul Eiddo |
| Trwyddedau Ymwelwyr i Breswylwyr (Parth K3) | Bwndel o drwyddedau awr x850 | £35.00 fesul bwndel | 6 bwndel fesul Eiddo y flwyddyn |
| Trwydded Ymwelwyr Hygyrch (Parth K3) | 12 mis | £35.00 fesul Trwydded | Un fesul Eiddo (yn lle Trwydded Ymwelwyr i Breswylwyr) |
| Trwyddedau Arhosiad Byr Busnes (Parth K3) | Bwndel o drwyddedau awr x120 | £120 y bwndel | Tri bwndel fesul Eiddo y flwyddyn |
| Trwyddedau Arhosiad Byr Asiantaeth Gymunedol (Parth K3) | Bwndel o drwyddedau undydd x100 (yn dod i ben am hanner nos ar ddiwrnod eu cyflwyno) | £35.00 fesul bwndel | Chwe bwndel fesul Eiddo y flwyddyn |
| Trwydded Staff Ysgol (Parth K3) | 12 mis | £35 fesul Trwydded | Un fesul person |

Bydd preswylwyr yr eiddo canlynol (ac eithrio unrhyw Eiddo Eithriedig) yn gymwys i wneud cais am Drwydded o'r math a bennir yn y tabl:

| CYFEIRIADAU (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ac nad ydynt yn Eiddo a Eithriwyd) | MATHAU O DRWYDDED |
|---|---|
| Stryd Alice - Pob un<br>Stryd Angelina – Pob un<br>Rhodfa Belmont – Pob un<br>Stryd Bute – 133 i 213 (yn unig)<br>Stryd Christina – Pob un | Preswylydd<br>Ymwelydd â Phreswylydd<br>Busnes |

| CYFEIRIADAU (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn ac nad ydynt yn Eiddo a Eithriwyd) | MATHAU O DRWYDDED |
|---|---|
| Stryd Hannah – Pob un<br>Hodges Row – Pob un<br>Sgwâr Hodges – Pob un<br>Tŷ Loudoun – Pob un<br>Sgwâr Loudoun – Pob un<br>Maria Court (Parêd y Gamlas) – Pob un<br>Stryd Maria – Pob un<br>Tŷ Nelson – Pob un<br>Plas Deheuol Loudoun – Pob un<br>Clos y Gorllewin – Pob un | Asiantaeth Gymunedol<br>Staff Ysgol |

Tariffau Talu ac Aros Arfaethedig i Barth K3:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Parth Rheoli Parcio K3 | Yr Awr | £1.50<br>(30 munud cyntaf am ddim ar ôl cael Tocyn am ddim) | 8am i 10pm, Dydd Llun i Ddydd Sul |

Mae manylion y cynigion a'r cynlluniau sy'n dangos y lleoliadau a graddau'r cyfyngiadau arfaethedig ar gael yn www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Gorchmynion-Traffig. Yn ogystal, gallwch gael copïau trwy anfon cais trwy e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk neu drwy anfon cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau eraill sy'n ymwneud â'r gorchymyn yn ysgrifenedig ar neu cyn 10 Gorffennaf 2026 neu drwy e-bost i gwrthwynebiadaugorchymyntraffigffyrdd@caerdydd.gov.uk a rhaid nodi eich rhesymau dros wrthwynebu. Gellir datgelu gohebiaeth fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu â chi yn yr iaith o'ch dewis, boed hynny'n Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, cyhyd â'ch bod yn dweud wrthym pa un sydd orau gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English.

Atodlen

1) Eich atal rhag aros rhwng 8am a 10pm yn:
   a) Stryd Alice ar ochr y de-orllewin o bwynt 12 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Chlos y Gorllewin am 34 metr i'r gogledd-orllewin ac ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 23 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Maes Parcio Stryd Alice am 3 metr i'r de-ddwyrain, ac o bwynt 24 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Chlos y Gorllewin am 5 metr i'r gogledd-orllewin, ac o bwynt 35 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Chlos y Gorllewin am 10 metr i'r gogledd-orllewin
   b) Stryd Angelina ar ochr y de-orllewin o bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r stryd ochr breswyl ddienw a leolir rhwng eiddo 59 ac 81 Stryd Angelina am 38 metr i'r de-ddwyrain, ac o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â'r stryd ochr breswyl a leolir rhwng eiddo 25 a 43 Stryd Angelina am 15 metr i'r de-ddwyrain
   c) Stryd yr Eglwys Roegaidd ar ochr y gogledd o bwynt 13 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Stryd Ogleddol yr Eglwys am 7 metr i'r dwyrain
   d) Hannah Street ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 22 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Ffordd Fynediad Steffan Court am 5 metr i'r de-orllewin
   e) Sgwâr Loudoun ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 10 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Stryd Angelina am 30 metr i'r de-orllewin

f) Stryd Ogleddol yr Eglwys ar ochr y de-orllewin o'r gyffordd â Stryd yr Eglwys Roegaidd am 6.8 metr i'r de
g) Clos y Gorllewin ar ochr y de o bwynt 40 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Stryd Bute am 56 metr i'r gorllewin ac ar ochr ogledd-ddwyreiniol pen mwyaf de-ddwyreiniol y clos o ffin gyffredin rhifau 13 a 15 am bellter o 8 metr i'r gogledd, ac oddi wrth ffin gyffredin rhifau 17 a 19 i'r pen caeëdig, ac o ochr dde-orllewinol y pen mwyaf de-ddwyreiniol y cau o'i ben caeëdig am 45 metr i'r gogledd-orllewin

2) Eich atal rhag aros ar unrhyw adeg yn:
   a) Stryd Bute ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 94 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Stryd Herbert am 59 metr i'r de-ddwyrain
   b) Stryd Ogleddol yr Eglwys ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Stryd Bute am 5 metr i'r de-orllewin
3) Sefydlu Ardaloedd Parcio â Thrwydded (Deiliaid Trwydded K3 yn Unig) yn weithredol rhwng 8am a 10pm yn y strydoedd pengaead oddi ar Stryd Angelina (ger rhifau eiddo 29-81, 25-43, a 7-19) ar eu hyd
4) Trosi Ardaloedd Parcio Trwyddedau Presennol ym Maes Parcio Stryd Alice, Meysydd Parcio Stryd Christina, Maes Parcio Sgwâr Hodges, Maes Parcio Hodges Row a Maes Parcio Stryd Maria i Ddeiliaid Trwydded 'K3' yn unig rhwng 8am a 10pm
5) Sefydlu Mannau i Ddeiliaid Trwyddedau yn Unig (K3) sy'n weithredol rhwng 8am a 10pm yn:
   a) Stryd Alice ar ochr y gogledd-ddwyrain o bwynt 18 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Chlos y Gorllewin am 5 metr i'r gogledd-orllewin, ac o bwynt 27 metr i'r gogledd-orllewin o'r un gyffordd am 5 metr i'r gogledd-orllewin
   b) Stryd Bute ar ochr y de-ddwyrain o bwynt 43 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Chlos y Gorllewin am 47 metr i'r gogledd-orllewin
6) Diwygio'r mannau parcio aros/trwydded cyfyngedig presennol yn Stryd Hannah, Ffordd Fynediad Sgwâr Hodges, Sgwâr Loudoun, Stryd Maria a Phlas Deheuol Loudoun i weithredu rhwng 8am a 10pm bob dydd
7) Sefydlu man parcio a rennir i Gyfyngu Aros i 2 awr (dim dychwelyd o fewn 2 awr) ac eithrio Deiliaid Trwydded K3 yn Stryd Ogleddol yr Eglwys ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 5 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Stryd Bute am 15 metr i'r de-orllewin, ac o bwynt 30 metr i'r de-orllewin o'r un gyffordd am 18 metr i'r de-orllewin
8) Diwygio'r mannau parcio Talu ac Aros Defnydd a Rennir a lleoedd parcio i Ddeiliaid Trwydded presennol sydd wedi'u lleoli ar Stryd Bute rhwng y cyffyrdd â Chlos y Gorllewin a Stryd Herbert fel eu bod yn gweithredu rhwng 8am a 10pm bob dydd
9) Eich atal rhag aros ar unrhyw adeg heb lwytho rhwng 8am a 10pm yn:
   a) Stryd Bute ar ochr y de-orllewin o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Hannah Street i bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'r un gyffordd
   b) Stryd Hannah ar ochr y de-ddwyrain o'r gyffordd â Stryd Bute i'r gyffordd â Stryd Alice, ac ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Stryd Bute am 10 metr i'r de-orllewin, ac o bwynt 7 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Ffordd Fynediad Steffan Court hyd at bwynt 7 metr i'r gorllewin o'r un gyffordd,
   c) Mynedfa Steffan Court ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Hannah Street am 5 metr i'r gogledd-orllewin
   d) Stryd Alice ar ochr y gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Hannah Street hyd at bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd â Ffordd Fynediad Maes Parcio Stryd Alice, ac ar ochr y de-orllewin o bwynt 63 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Chlos y Gorllewin am 15 metr i'r gogledd-orllewin, ac ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Chlos y Gorllewin am 12 metr i'r gogledd-orllewin
   e) Maes Parcio Stryd Alice ar y ddwy ochr o'r gyffordd â Stryd Alice am 8.5 metr i'r gogledd-ddwyrain
   f) Clos y Gorllewin ar ochr y gogledd o bwynt 10 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Stryd Alice i bwynt 10 metr i'r dwyrain o'r un gyffordd, ac o bwynt 30 metr i'r dwyrain o'r gyffordd â Stryd Alice am 25 metr i'r dwyrain, ac o amgylch yr ynys ar ganol y ffordd yng Nghlos y Gorllewin.

10) Sefydlu Man Llwytho Cerbydau Nwyddau yn Unig gydag arhosiad hyd at 1 awr (dim dychwelyd o fewn 2 awr) yn Stryd Bute ar ochr y de-orllewin o bwynt 44 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â Phlas Deheuol Loudoun am 15 metr i'r gogledd-orllewin
11) Eich atal rhag stopio yn Stryd Ogleddol yr Eglwys ar ochr y gorllewin o bwynt 6.8 metr i'r de o linell balmant gogledd-orllewin Stryd yr Eglwys Roegaidd am 29.1 metr i'r de

Eithriadau

O ran paragraffau 1 - 6

a) mynd i mewn ac allan o gerbyd
b) llwytho a dadlwytho nwyddau
c) gwasanaethau hanfodol ac angladdau
d) am hyd at dair awr i gerbydau sy'n arddangos "Bathodyn Person Anabl" a "Disg Parcio" ac sy'n cael eu defnyddio i gludo pobl anabl

O ran paragraffau 7 ac 8

a) mynd i mewn ac allan o gerbyd
b) llwytho a dadlwytho nwyddau
c) gwasanaethau hanfodol ac angladdau
d) cerbydau sy'n arddangos "Bathodyn Person Anabl" a "Disg Barcio" ac sy'n cael eu defnyddio i gludo pobl anabl


O ran paragraff 9

a) mynd i mewn ac allan o gerbyd
b) llwytho a dadlwytho nwyddau rhwng 10:01pm – 11:59pm a 12am – 7:59am
c) gwasanaethau hanfodol ac angladdau
d) am uchafswm o dair awr rhwng 10:01pm – 11:59pm a 12am – 7:59am wrth arddangos "Bathodyn i'r Anabl" a "Disg Parcio" ac yn cael eu defnyddio i gludo personau anabl

O ran paragraff 10

a) mynd i mewn ac allan o gerbyd
b) gwasanaethau hanfodol ac angladdau

Dyddiedig 19 Mehefin 2026
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW




**THE COUNTYGORCHYMYN (CYDGRYNHOI) (GWAHARDD A CHYFYNGU STOPIO, ARPS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) CYNGOR A DINAS CAERDYDD 2024**


**SYLWER: GWELER ALLWEDD YR ATODLEN MAP AR GYFER YCYFYNGIADAU I'W DANGOS**

Atgynhyrchwyd y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chanitad yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae unrhyw atgynhyrchu nas awdurdodir yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Sir Caerdydd
Rhif Trwydded: AC0000816513
2024

AI27
AJ26 AJ28
AK27

Parking Zones: K3 ,B6 8am-10pm

| | |
|---|---|
| GRADDFA | 1 : 1250 @ A3 |
| DYDDIAD | |
| MAP | Tile Ref: AJ27 |
| ADOLYGIAD | DRAFFT |




**THE COUNTYGORCHYMYN (CYDGRYNHOI) (GWAHARDD A CHYFYNGU STOPIO, ARPS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) CYNGOR A DINAS CAERDYDD 2024**

**SYLWER: GWELER ALLWEDD YR ATODLEN MAP AR GYFER YCYFYNGIADAU I'W DANGOS**


Atgynhyrchwyd y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chanitad yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae unrhyw atgynhyrchu nas awdurdodir yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Sir Caerdydd
Rhif Trwydded: AC0000816513
2024

AJ27 · AK26 · AK28 · AL27

N · W · E · S

Parking Zones: K3 ,B6 8am-10pm

| | |
|---|---|
| **GRADDFA** | 1 : 1250 **@ A3** |
| **DYDDIAD** | |
| **MAP** | Tile Ref: AK27 |
| **ADOLYGIAD** | DRAFFT |




THE COUNTYGORCHYMYN (CYDGRYNHOI) (GWAHARDD A CHYFYNGU STOPIO, ARPS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) CYNGOR A DINAS CAERDYDD 2024

SYLWER: GWELER ALLWEDD YR ATODLEN MAP AR GYFER YCYFYNGIADAU I'W DANGOS


Atgynhyrchwyd y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chanitad yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae unrhyw atgynhyrchu nas awdurdodir yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Sir Caerdydd
Rhif Trwydded: AC0000816513
2024

AK27
AL26 AL28
AM27

N W E S

Parking Zones: K3 ,B6 8am-10pm

| | |
|---|---|
| GRADDFA | 1 : 1250 @ A3 |
| DYDDIAD | |
| MAP | Tile Ref: AL27 |
| ADOLYGIAD | DRAFFT |




| | |
|---|---|
| SCALE | 1 : 1250 @ A3 |
| DATE | |
| MAP | Tile Ref: AM28 |
| REVISION | DRAFT |

CARDIFF CAERDYDD

**THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF (PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS OF STOPPING, WAITING, LOADING AND STREET PARKING PLACES) (CONSOLIDATION) ORDER 2024**


**NOTE: SEE MAP SCHEDULE LEGEND FOR RESTRICTIONS DISPLAYED**

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cardiff County Licence No: AC0000816513 2026

AL28
AM27 AM29
AN28

N E S W

Parking Zones: K3 ,K1




**THE COUNTYGORCHYMYN (CYDGRYNHOI) (GWAHARDD A CHYFYNGU STOPIO, ARPS, LLWYTHO A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) CYNGOR A DINAS CAERDYDD 2024**

**SYLWER: GWELER ALLWEDD YR ATODLEN MAP AR GYFER YCYFYNGIADAU I'W DANGOS**

Atgynhyrchwyd y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chanitad yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae unrhyw atgynhyrchu nas awdurdodir yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Sir Caerdydd
Rhif Trwydded: AC0000816513
2024

AK28
AL27
AL29
AM28

N W E S

Parking Zones: K3 ,K1

| | |
|---|---|
| GRADDFA | 1 : 1250 @ A3 |
| DYDDIAD | |
| MAP | Tile Ref: AL28 |
| ADOLYGIAD | DRAFFT |

CARDIFF
CAERDYDD

# ALLWEDD MAP / MAP LEGEND

## Mathau Gorchymyn/Order Types

Man Parcio Bws
Bus Parking Place

Blwch Safle Bws
Bus Stop Box

Maes parcio
Car Park

Man Parcio Llogi Beiciau
Cycle Hire Parking Place

Deiliaid bathodyn anabledd yn unig
Disabled Badge Holders Only

Defnydd Deuol (Deiliaid Bathodyn Anabl a Cherbydau Nwyddau)
Dual Use (Disabled Badge Holders & Goods Vehicles)

Defnydd Deuol (Llwytho Cerbydau Nwyddau ac Aros Cyfyngedig)
Dual Use (Goods Vehicle Loading & Limited Waiting)

Gwefru Cerbydau Trydan Yn Unig
Electric Vehicle Charging Only

Llwytho i Gerbydau Nwyddau Yn unig
Goods Vehicle Loading Only

Ardal Llwytho i Gerbydau Nwyddau Yn Unig
Goods Vehicle Loading Only Area

Aros Cyfyngedig
Limited Waiting

Llwytho yn unig
Loading Only

Dim llwytho ar Adegau Penodol
No Loading at Specified Times

Dim Stopio ar Droedffordd/Ymylon
No Stopping on Footway/Verge

Dim aros /Dim llwytho ar Adegau Penodol
No Waiting /No Loading at Specified Times

Dim aros ar unrhyw adeg
No Waiting At Any Time

Dim Aros ar unrhyw adeg / Dim Llwytho ar adegau penodol
No Waiting At Any Time /No Loading at Specified Times

Dim Aros ar Unrhyw Adeg /Dim Llwytho 8am-10pm
No Waiting At Any Time /No Loading 8am-10pm

Dim aros ar unrhyw adeg /Dim llwytho ar Unrhyw Adeg
No Waiting At Any Time /No Loading At Any Time

Dim Aros Ar Unrhyw Adeg / Dim Llwytho Yn Ystod Oriau'r Parth
No Waiting At Any Time / No Loading During Zone Hours

Dim aros ar amseroedd penodol
No Waiting at Specified Times

Dim Aros Yn Ystod Oriau'r Parth
No Waiting During Zone Hours

Dim Aros/Llwytho Yn Ystod Oriau'r Parth
No Waiting/Loading During Zone Hours

Talu ac Aros
Pay and Stay

Llinellau Igam-ogam Croesfan Cerddwyr
Pedestrian Crossing Zigzags

Parth cerddwyr
Pedestrian Zone

Deiliaid trwydded yn unig
Permit Holders Only

Ardal Parcio Trwyddedau
Permit Parking Area

Gwaharddd Stopio
Prohibition of Stopping

Gwaharddd Aros/Stopio ar Ymylon y Glaswellt
Prohibition of Waiting/Stopping on Grass Verges

Deiliaid trwydded perswyl yn unig
Resident Permit Holders Only

Parth Parcio Cyfyngedig
Restricted Parking Zone

Ysgol Cadwch yn Glir
School Keep Clear

Defnydd a Rennir (Deiliaid Trwydded ac Aros Cyfyngedig yn Ystod Oriau'r Parth)
Shared Use (Permit Holders & LW During Zone Hours)

Defnydd a Rennir (Deiliaid Trwydded / Talu ac Aros yn Ystod Oriau'r Parth)
Shared Use (Permit Holders /P&S During Zone Hours)

Defnydd a Rennir (Deiliaid Trwyddedau ac Aros Cyfyngedig)
Shared Use (Permit Holders and Limited Waiting)

Defnydd a Rennir (Tacsis a Llwytho Cerbydau Nwyddau)
Shared Use (Taxi and Goods Vehicle Loading)

Defnydd a Rennir ac Aros Cyfyngedig
Shared Use Limited Waiting

Defnydd a Rennir Talu ac Aros
Shared Use Pay and Stay

Man Parcio Arbennig
Special Parking Place

Deiliaid Trwyddedau Arbennig Yn Unig
Special Permit Holders Only

Safle Tacsis
Taxi Rank

# ALLWEDD MAP / MAP LEGEND

## Parth Parcio / Parking Zone

Parth Parcio / Parking Zone